**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Craffu Oedolion held at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA on Dydd Llun, 30ain Hydref, 2017 at 10.00 am**

**PRESENT:** County Councillor S. Howarth (Chairman)
County Councillor (Vice Chairman)

County Councillors: L.Dymock, M.Groucutt, P.Pavia, J.Pratt, R. Harris, R. Edwards and S. Woodhouse

Also in attendance County Councillor(s):

**OFFICERS IN ATTENDANCE:**

| | |
|---|---|
| Wendy Barnard | Democratic Services Officer |
| Hazel Ilett | Scrutiny Manager |
| Ian Bakewell | Housing & Regeneration Manager |
| Stephen Griffiths | Strategy & Policy Officer |
| Colin Richings | Implementation Lead |
| Tracy Finnis | Senior Housing Support Officer |

**APOLOGIES:**

Councillors L.Brown

1. **Datganiadau o Fuddiant**

Ni wnaed unrhyw ddatganiad o fuddiant.

2. **Fforwm Agored i'r Cyhoedd**

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

3. **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol**

Cadarnhawyd fel rhai cywir gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12fed Medi 2017.

4. **Parthed – darpariaeth Cartref Preswyl Severn View**

- **Casgliadau'r Pwyllgor**
  Fel pwyllgor, rydym yn cytuno â'r egwyddor y dylai'r Cyngor gymryd yr arweiniad i ddarparu model gofal cynaliadwy hirdymor yn y dyfodol ar gyfer Sir Fynwy. O gofio llwyddiant Prosiect Rhaglan, rydym yn deall manteision y Cyngor yn darparu cyfleusterau gofal i sicrhau gwasanaeth o ansawdd uchel. Rydym yn cydnabod bod ein hamcan sylfaenol yn parhau i gefnogi pobl i fyw'n annibynnol gyhyd ag sy'n bosib, ond y bydd angen ystod o wasanaethau i gefnogi anghenion gofal cymhleth yn y dyfodol megis dementia, o gofio'r boblogaeth gynyddol sy'n heneiddio.
- Mae'r Pwyllgor yn cefnogi argymhellion yr adroddiad i fynd rhagddo i gam nesaf achos busnes manwl ar gyfer Cynnig Severn View, fodd bynnag, cytunodd yr Aelodau y dylai'r cynigion gael eu trafod mewn seminar aelodau yn y dyfodol.
- Mae'r Pwyllgor o'r farn bod angen Strategaeth Gomisiynu drosfwaol ar gyfer darparu gofal preswyl, gwasanaeth seibiant a gwasanaethau eraill, i amlinellu cyfeiriad strategol ar gyfer gwasanaethau ar draws y sir ac y dylai'r strategaeth hon gael ei chyflawni er mwyn trwytho adolygu'n Cynllun Datblygu Lleol.

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Craffu Oedolion held at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA on Dydd Llun, 30ain Hydref, 2017 at 10.00 am**

**5. <u>Cymorth Tai Gateway</u>**

**Pwrpas:**
Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu trosolwg o Gymorth Tai Gateway a gyllidir gan Gefnogi Pobl, codi ymwybyddiaeth o'r manteision, (i gleientiaid ac asiantaethau partner) a thynnu sylw at y lefelau gweithgarwch a'r peryglon yn y dyfodol.

**Materion Allweddol:**
1. Swyddogaeth Tîm Gateway yw darparu pwynt cyswllt sengl a mynediad i wasanaethau Cefnogi Pobl Sir Fynwy. Mae'r Gateway yn rheoli derbyn a phrosesu atgyfeiriadau cymorth tai, ymgymryd ag asesiadau cymorth oddi wrth aelwydydd neu mewn perthynas ag aelwydydd bregus, rheoli'r rhestri aros a threfnu dyraniad 'amserol' pecynnau cymorth i ystod o ddarparwyr gwasanaeth a gyllidir gan Gefnogi Pobl.

2. Fel rhan o'r swyddogaeth graidd, bydd y tîm yn darparu gwybodaeth, cyngor, cymorth ac asesiad o angen (anghenion) cyn atgyfeirio at Ddarparwr Cefnogaeth addas. Er enghraifft, Gwalia sy'n darparu cefnogaeth gyffredinol lle bo'r angen; MIND sy'n darparu cefnogaeth yn gysylltiedig ag iechyd meddwl a Llamau sy'n darparu cefnogaeth i ddioddefwyr cam-drin domestig a'r rheiny sydd angen gorchfygu rhwystrau i gael mynediad i gyflogaeth, sgiliau neu hyfforddiant.

3. Swyddogaeth ychwanegol y gwasanaeth, a lle bo'n briodol, yw darparu cefnogaeth uniongyrchol i unigolion a theuluoedd drwy gyfrwng gwasanaeth Atal ac Ymyrryd. Gwasanaeth argyfwng yw'r gwasanaeth hwn mewn gwirionedd, lle bydd y Gateway yn ceisio mynd i'r afael ag unrhyw faterion brys cyn atgyfeirio ymlaen at Ddarparwr Cefnogaeth addas. Er enghraifft, gall y tîm ymgymryd ag ymweliadau brys, cynorthwyo gydag apwyntiadau brys (e.e. cyfweliadau budd-daliadau) neu lenwi ffurflenni lle mae amser yn dyngedfennol ac ailgartrefu pobl yn uniongyrchol. Nid yw cydlynu â banciau bwyd yn anghyffredin.

4. Yn ddiweddar comisiynwyd y Gateway i ddarparu gwasanaeth adolygu ar ran Comisiynu Cefnogi Pobl. Mae hyn yn bwysig oherwydd ei fod yn cefnogi sicrwydd ansawdd, yn sicrhau yr ymgymerwyd â gweithgareddau cymwys; mae'n cyfrannu at effeithiolrwydd gweithredol (e.e. gwneud yn siŵr nad yw achosion yn agored yn hwy nag sydd angen ar y cleient a choladu 'yr hyn sydd o bwys' ac adborth bodlonrwydd.

5. Mae'r Gateway yn bartner allweddol i nifer o wasanaethau eraill. Mae'r Tîm Dewisiadau Tai yn un o'r rhain. Trosglwyddir ar unwaith bob cysylltiad wnaed â'r Cyngor a'r Tîm Dewisiadau Tai mewn perthynas â digartrefedd i'r Gateway er mwyn i gymorth tai gychwyn cyn gynted â phosib ar gyfer ymgeiswyr unigol digartref.

Nod y trefniant hwn yw i ddarparwyr cymorth, gan gynnwys Gwasanaeth Atal ac Ymyrryd Gateway, ddarparu gwasanaeth atal ategol yn ogystal â swyddogaeth statudol y Tîm Dewisiadau Tai.

6. Mae partneriaethau eraill yn cynnwys cefnogi gofal Cymdeithasol, cydweithio i ddatblygu gwasanaethau Tai a Llesiant a Chynhwysiant Cymdeithasol "sy'n seiliedig ar le" sy'n gymorth tai wedi'i gyflenwi drwy agwedd integredig gan bedwar Hyb Sir Fynwy.

7. Mae'r Gateway yn darparu swyddogaeth bwysig mewn perthynas â chyfrifoldebau Diogelu'r Cyngor a chynorthwyo i adnabod a chefnogi pobl agored i niwed mewn amgylchiadau megis cam-drin domestig a cham-drin plant ynghyd ag oedolion.

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Craffu Oedolion held at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA on Dydd Llun, 30ain Hydref, 2017 at 10.00 am**

**Craffu Aelodau:**

Derbyniodd y Pwyllgor Dethol gyflwyniad gan yr Uwch Swyddog Cymorth Tai gyda Chymorth Tai Gateway Sir Fynwy a chafodd gyfle i ofyn cwestiynau. Diolchwyd i'r Swyddog am y cyflwyniad ardderchog ac am y gwaith mae Gateway yn ei gyflawni.

Gwnaeth Aelod sylw ar symud tollau Pont Hafren, codiadau mewn rhent a morgeisi, a chyfraddau llog cynyddol a holodd a oedd y ffactorau hyn yn creu pwysau o fewn y gwasanaeth. Ymatebwyd bod unrhyw fathau o newidiadau'n gallu effeithio ar wasanaethau gan gydnabod ei bod yn anodd dod o hyd i dai fforddiadwy o fewn Sir Fynwy beth bynnag. Mae fforddiadwyedd wrth galon llawer o'r ceisiadau a dderbynnir am dai, a nodwyd bod cyfraddau rhent y farchnad yn uwch na'r lefelau budd-daliadau

Eglurodd Aelod, yn nhermau cynllunio, mai prin y gwelir ceisiadau am dai aml breswylwyr neu newidiadau i dai aml breswylwyr. Cadarnhawyd mai dyma yw'r sefyllfa. Mae yna gynllun rhannu tai sy'n darparu'r prif unedau yn y Sir ond gwnaeth sylw bod cymdeithasau tai yn dechrau ystyried yr agwedd hon. Mae hyn yn annhebygol o gael effaith yn y byrdymor.

Cyfeiriodd Aelod at bythefnos genedlaethol cyfrif y rheiny sy'n cysgu mewn llefydd agored anghonfensiynol a holodd a yw'n debygol y bydd cynnydd mewn trethi. Eglurwyd y disgwylir cynnydd bychan, yn fwy nag yn y blynyddoedd blaenorol.

Holwyd a oedd unrhyw themâu cyffredin a oedd yn peri i bersonau gysgu mewn llefydd agored anghonfensiynol. Ymatebwyd bod rhesymau cymysg.

| |
|---|
| **Casgliadau'r Pwyllgor:**<br><br>Derbyniodd y Pwyllgor Dethol yr adroddiad a rhoddwyd ystyriaeth i'r modd mae Cymorth Tai Gateway yn cefnogi aelwydydd bregus, yn enwedig y rheiny a fygythir gan ddigartrefedd neu sy'n ddi-gartref dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014.<br><br>Diolchwyd i aelodau'r tîm am eu gwaith caled. |

6. **Gwasanaethau Sipsiwn a Theithwyr**

**Casgliadau'r Pwyllgor:**
Cydsyniodd y Pwyllgor, wedi trafod sut mae'r Cyngor yn ymgysylltu â chymuned y Sipsiwn a'r Teithwyr a'r modd mae'n darparu'i ymateb statudol i fynd i'r afael â'r anghenion a adnabuwyd, ag argymhellion yr adroddiad.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i ddrafft cyntaf y polisi dyrannu Lleiniau Sipsiwn a Theithwyr cyn ymgynghori.

Gwnaed cais bod y Cyngor yn derbyn adroddiad pellach yn dilyn yr ymgynghori.

7. **Polisi Digartrefedd Tywydd Oer**

**Pwrpas:**

# MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

## Minutes of the meeting of Pwyllgor Craffu Oedolion held at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA on Dydd Llun, 30ain Hydref, 2017 at 10.00 am

Ystyried y Protocol Argyfwng Tywydd Difrifol (PATD) sy'n manylu ar ymateb arfaethedig y Cyngor tuag at bersonau sy'n cysgu mewn llefydd anghonfensiynol mewn amodau o dywydd caled difrifol a gwneud argymhellion fel bo'n briodol.

**Materion Allweddol:**
1. Er nad oes diffiniad eglur o'r hyn sy'n cyfrif fel "tywydd difrifol", cynigir bod y Cyngor yn mabwysiadu agwedd synnwyr cyffredin ac yn dynodi unrhyw dywydd a allai gynyddu'r perygl o niwed difrifol i bobl sy'n cysgu mewn llefydd anghonfensiynol. Gall hyn gynnwys oerni eithafol, glaw neu wynt.

At ddibenion y protocol diffinnir person sy'n cysgu mewn llefydd anghonfensiynol fel:

i. Pobl yn cysgu, ar fin gosod eu gwely (eistedd mewn/ar neu sefyll nesaf at eu dillad gwely) neu'n gwirioneddol wneud eu gwely yn yr awyr agored (megis ar strydoedd, mewn pebyll, y tu allan i ddrysau, parciau, cysgodfeydd bws neu wersylloedd). Pobl yn gwneud eu gwelyau mewn adeiladau neu leoedd eraill na ddyluniwyd ar gyfer pobl i fyw ynddynt (megis grisiau, ysguboriau, cytiau, meysydd parcio, ceir, cychod segur neu orsafoedd).

2. Bob blwyddyn mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol adrodd i Lywodraeth Cymru ar nifer y bobl sy'n cysgu mewn llefydd anghonfensiynol o fewn eu hardal. Mae casglu data ar ffurf dau gyfrif, cyfrif un noson a chyfrif dros gyfnod o amser.

i. Cyfrif Un Noson – digwydd hyn ar ddyddiad a benderfynir ymlaen llaw ac mewn ardaloedd daearyddol lle mae'n wybyddus bod pobl yn cysgu mewn mannau anghonfensiynol neu'n debygol o gysgu mewn mannau felly. Yn ystod 2015 digwyddodd y cyfrif ar y 4ydd Tachwedd rhwng oriau 10pm i 5am. Ni chanfuwyd un person yn cysgu dan yr amodau hyn.
ii. Cyfnod Cyfrif – cesglir data dros gyfnod o bythefnos gyda chymorth y sector gwirfoddol, grwpiau ffydd, busnesau/preswylwyr lleol, asiantaethau iechyd a cham-drin sylweddau a chyffuriau, a'r heddlu. Ar gyfer gaeaf 2015/16 digwyddodd hyn yn ystod 2il – 15fed Tachwedd a dynodwyd pum person yn cysgu allan. Ar gyfer gaeaf 2016/17 digwyddodd hyn yn ystod 10fed– 23ain Hydref a dynodwyd un person yn cysgu allan.

3. Mae disgwyliad o fewn Llywodraeth Cymru y dylai awdurdodau lleol sicrhau bod darpariaeth yn ei lle i fynd i'r afael ag anghenion y rheiny sy'n cysgu mewn llefydd anghonfensiynol yn eu hardal yn ystod amodau tywydd difrifol, yn enwedig felly yn ystod misoedd y gaeaf.

4. Ei nod yw cyflwyno'r hyn a adwaenir fel 'Protocol Brys Tywydd Difrifol' o aeaf 2017. Bydd y protocol yn sicrhau y deuir o hyd i loches i unrhyw rai wedi'u dilysu sy'n cysgu mewn llefydd anghonfensiynol gyda neu heb gysylltiad lleol yn ystod cyfnodau o dywydd difrifol, yn enwedig pan all tymheredd eithafol am gyfnodau estynedig fygwth eu diogelwch a'u lles.

5. Pwy sy'n Gymwys?

i. Unrhyw berson sy'n cysgu allan mewn lle anghonfensiynol ar y strydoedd mewn oerfel eithafol. Mae hyn yn cynnwys y rheiny heb fynediad i gronfeydd cyhoeddus megis gwladolion A10 a ddaethant yn aelodau o'r Undeb Ewropeaidd. Noda hyn fod yn rhaid i'r personau sy'n cysgu allan mewn llefydd anghonfensiynol:

- fod mewn perygl os ydynt yn parhau i gysgu allan yn ystod cyfnod o dywydd difrifol
- fod ag unlle i gysgu y tu fewn yn ystod cyfnod o dywydd difrifol (nid yw tu fewn yn cynnwys ceir, cytiau neu garejis)

- gytuno i'r cymorth a gynigir gan y Cyngor.

6. Y Broses

i. Caiff y broses ei sbarduno gan arolwg tywydd o'r Swyddfa Dywydd yn rhagweld tair noson yn dilyn ei gilydd, neu fwy, lle mae'r tymheredd yn sero Celsius neu'n is. Ar gyfer ffurfiau eraill o eithafion mewn tywydd, er enghraifft glaw neu wynt, bydd y Cyngor yn cymryd agwedd bragmataidd yn seiliedig ar rybuddion tywydd wedi'u dynodi'n goch a'r tebygrwydd o niwed difrifol yn digwydd o ganlyniad i gyfnodau estynedig o gysgu mewn llefydd anghonfensiynol cyn sbarduno'r protocol.
ii. Cyn gynted ag y mae'r protocol wedi'i sbarduno, bydd y Swyddog Dewisiadau Tai sydd ar ddyletswydd yn cysylltu â'r sefydliadau perthnasol, yn asiantaethau allanol ynghyd â mewnol, i'w cynghori bod PBTD yn ei le, gyda manylion ynghylch â phwy i gysylltu os dynodant unrhyw berson sy'n cysgu mewn lle anghonfensiynol.
iii. Os yw unrhyw berson sy'n cysgu mewn lle anghonfensiynol yn cwrdd â'r meini prawf uchod, cynigir iddo/iddi lety brys, sy'n debygol o fod yn Wely a Brecwast, dros gyfnod y tywydd difrifol.

**Craffu Aelodau:**

Yn dilyn cyflwyniad o'r adroddiad gan y Swyddog Strategaeth a Pholisïau Tai gofynnwyd cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor:

Mewn ymateb i gwestiwn, cytunwyd dwblwirio bod y rhif ffôn llety brys ar gael y tu allan i oriau swyddfa.

Cwestiynodd Aelod paham fod y broses yn cychwyn wedi tair noson a chadarnhawyd bod hyn yn arfer safonol a dderbynnir.

Cwestiynodd Aelod a fyddai llety ar gael ar fyr rybudd petai'r tywydd yn newid yn annisgwyl. Eglurwyd bod swyddogion yn monitro'r tywydd yn ddyddiol. Ychwanegwyd bod ffynonellau cyfyngedig o Wely a Brecwast ond bod y tîm fel arfer yn datrys sefyllfaoedd yn unionsyth.

Gofynnwyd a oes cyfle i geisio cymorth meddygol neu gymorth a chefnogaeth arall. Cadarnhawyd y gwneir cynnig i weithio gyda'r person er mwyn ei ddenu oddi ar y stryd.

Cwestiynwyd a chadarnhawyd bod cronfa gyffredinol ar gyfer digartrefedd â chyllideb o £60,000-£70,000 i gyflenwi'r gost, er enghraifft, o osod teuluoedd mewn llety Gwely a Brecwast.

## 8. Camau gweithredu sy'n codi o'r cyfarfod diwethaf

**Casgliadau'r Pwyllgor:**
Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r Protocol Brys Tywydd Difrifol (PBTD).
Ystyriodd oblygiadau cysgu mewn lle anghonfensiynol ac i swyddogaeth y Cyngor, yn arbennig yn ystod cyfnodau o dywydd difrifol ac argymhellodd i'r Cabinet fod y Protocol Brys Tywydd Difrifol yn cael ei fabwysiadu'n unionsyth.

Aed i'r afael â'r Camau Gweithredu o'r cyfarfod diwethaf.

## 9. Blaengynllun y Cyngor a'r Cabinet

# MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

## Minutes of the meeting of Pwyllgor Craffu Oedolion held at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA on Dydd Llun, 30ain Hydref, 2017 at 10.00 am

Nodwyd Cynllun y Cyngor a'r Cabinet. Cynghorwyd yr Aelodau i gadw llygad am yr e-bost wythnosol sy'n darparu fersiwn ddiweddaraf y Cynllun bob dydd Gwener i alluogi Aelodau i gadw i fyny â'r newidiadau a'r datblygiadau. Gwnaeth yr Aelodau gais am flaen-ddyddiadau'n unig.

### 10. Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf fel dydd Mawrth 12fed Rhagfyr 2017 am 10.00am

### 11. Blaengynllun Rhaglen y Pwyllgor Dethol Oedolion

Nodwyd Rhaglen y Blaengynllun Gwaith.

Cynhelir Cyfarfod Arbennig o Bwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc ar 13eg Tachwedd 2017. Un o'r eitemau dan ystyriaeth yw Adroddiad Gwerthuso Diogelu. Gwahoddir aelodau o'r Pwyllgor Dethol Oedolion i fynychu.

Gofynnwyd i'r Rheolwr Craffu anfon y mandadau perthnasol allan i'r Pwyllgor Dethol Oedolion.

Adroddiad cyllideb ar gyfer pob un a'r cynigion wedi'u hollti yn unol â pherthnasedd. Trefnu Pwyllgor Dethol ar y Cyd arbennig yn y flwyddyn newydd i adolygu'r holl fandadau i'w craffu gan Aelodau'r Cabinet.

Cynghorwyd Aelod i gysylltu â'r Is-bennaeth Cyllid am restr o'r dyletswyddau statudol.

**The meeting ended at 12.35 pm**